Cerdyn Argyfwng Gofalwyr
Carers Emergency Card

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n dibynnu arnoch oherwydd bod ganddynt salwch, anabledd neu'n oedrannus ac yn fregus, gallai'r cerdyn argyfwng gofalwyr roi tawelwch meddwl i chi.

Beth yw Cerdyn Argyfwng Gofalwyr a beth yw'r manteision i mi?

Mae hwn yn gerdyn mae gofalwyr yn ei gario gyda nhw bob amser. Os yw gofalwr yn cael damwain neu salwch sydyn, mae'r cerdyn yn rhybuddio'r gwasanaethau brys fod yna rhywun gartref sy'n methu ymdopi heb gymorth. Gall gofalwyr hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth hwn os ydynt yn cael eu gohirio tra byddant allan.

Sut mae'r cerdyn yn gweithio?

Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen gofrestru. Mae'r ffurflen yn gofyn am fanylion y person rydych yn gofalu amdano, a manylion cyswllt hyd at ddau o bobl eraill rydych yn gwybod a allai gymryd eich lle mewn argyfwng.

Mae manylion y bobl a enwebwyd wedyn yn cael eu storio ar system wybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych i ddarparu gwasanaeth ymateb i argyfwng 24 awr y dydd. Yna byddwch yn cael Cerdyn Argyfwng Gofalwyr gyda'ch rhif adnabod

If you look after someone who depends on you because they have an illness, disability or are elderly and frail, the carers emergency card could give you peace of mind.

What is a Carers Emergency Card and how will it benefit me?

This is a card that carers carry with them at all times. If a carer has an accident or sudden illness, the card alerts the emergency services that there is someone at home who can't manage without help. Carers can also use this service if they are delayed while they are out.

How does the card work?

You will be asked to fill in a registration form. The form asks for details of the person you care for and contact details of up to two other people you know who could step in to take your place in an emergency.

The details of these nominated people are then stored on Denbighshire Social Services information system to provide a 24 hour emergency call response service. You will then get a Carers Emergency Card with your unique identification number on it. You will need to carry the card with you at all times,

unigryw arno. Bydd angen i chi gario'r cerdyn gyda chi bob amser, fel arfer mewn pwrs neu waled.

Os bydd argyfwng, bydd y gwasanaethau brys yn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych pan fyddant yn dod o hyd i'ch cerdyn ac yn dyfynnu eich rhif adnabod unigryw; bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedyn yn cysylltu ag un o'ch pobl enwebedig sy'n gallu camu i'r adwy.

Beth os nad oes gennyf unrhyw un y gallaf ei enwebu?

Gallwch barhau i gofrestru ar gyfer y cynllun. Os oes argyfwng ac nad oes gennych unrhyw un wedi'i enwebu i gamu i'r adwy, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymateb yn awtomatig.

Beth fydd yn rhaid i'r bobl a enwebwyd ei wneud?

Dylai pob person enwebedig adnabod y person rydych yn gofalu amdano, a faint o gymorth a chefnogaeth sydd ei angen arnynt. Bydd angen iddynt wybod sut i gael mynediad i'ch cartref, neu gartref y person y gofalwch amdano. Bydd angen iddynt hefyd wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Os na all Gwasanaethau Cymdeithasol gael gafael ar yr un o'r ddau berson a enwebwyd gennych i gamu i'r adwy, byddant yn darparu ymateb priodol.

usually in a purse or wallet

If there is an emergency, the emergency services will contact Denbighshire Social Services when they find your card and quote your unique identification number; Social Services will then contact one of your nominated people who can step in.

What if I don't have anyone who I can nominate?

You can still register for the scheme. If there is an emergency and you don't have anyone nominated to step in, Social Services will automatically respond.

What will the nominated people have to do?

Each nominated person should know the person you care for, and how much help and support they need. They will need to know how to access your home, or the home of the person you care for. They will also need to know what to do in an emergency.

If Social Services can't get in touch with either of the people you have nominated to step in, they will provide an appropriate response.

Sut ydw i'n gwneud cais

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru. Mae hon ar gael gan:

Gwasanaethau Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)
Uned C3, Canolfan Fusnes Morfa Clwyd
Marsh Road
Y Rhyl
LL18 2AF

Rhif Ffôn: 01745 331181
E-bost: denbighshire@newcis.org.uk

Neu:

Un Pwynt Mynediad
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
LL18 3HN
Rhif Ffôn: 0300 456 1000
E-bost: spoa@denbighshire.gov.uk

Os ydych yn cael asesiad gallwch lenwi ffurflen gofrestru ar yr un pryd. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau at NEWCIS. Byddant yn eich cofrestru gyda'r gwasanaeth ac yn anfon eich manylion at Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Yna byddwch yn cael eich Cerdyn Argyfwng Gofalwyr.

Cyfrinachedd gwybodaeth

Bydd eich holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

How do I apply?

You will need to fill in a registration form. You can get this from:

North East Wales Carers Information Services (NEWCIS)
Unit C3, Morfa Clwyd Business Centre
Marsh Road
Rhyl
LL18 2AF

Telephone: 01745 331181
Email: denbighshire@newcis.org.uk

Or:

Single Point of Access
Denbighshire Social Services
64 Brighton Road
Rhyl
LL18 3HN
Telephone: 0300 456 1000
Email: spoa@denbighshire.gov.uk

If you have an assessment you can fill in a registration form at the same time. Send the completed form to NEWCIS. They will register you with the service and send your details to Denbighshire Social Services. You will then get your Carers Emergency Card.

Confidentiality of information

All your information will be treated in confidence and in compliance with the Data Protection Act 1998.

Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid? Byddwch yn cael llythyr adolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir amdanoch yn dal i fod yn gywir. Gallwch hefyd gysylltu â NEWCIS ar unrhyw adeg i roi gwybod iddynt am y newidiadau. Bydd NEWCIS yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr, cysylltwch â NEWCIS neu Un Pwynt Mynediad. **Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais. Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion.**	**What if my circumstances change?** You will be sent a review letter every year to check that the information held about you is still correct. You can also contact NEWCIS at any time to let them know about changes. NEWCIS will pass on this information to Social Services. If you would like more information about the Carers Emergency Card scheme please contact NEWCIS or Single Point of Access. **This document may be available in other languages and/or formats on request. Please call 0800 032 1099 for further details.**